

# UNDOD DROS YR EFENGYL A CHYDWEITHREDU



Dydd Sadwrn  
- 2 Mawrth -

Mae yna bŵer goruwchnaturiol rhyfeddol yn yr efengyl. Y mae Ysbryd Duw yn dod â ni i berthynas gyda'r Tad drwy farwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist ar y groes - am wirionedd rhyfeddol! Rydym wedi'n huno mewn perthynas gyda'r Duw sy'n dri yn un ac mae'n amlwg fod Iesu am i ni ddangos hyn i'r byd di-gred. Yn anffodus, nid yw undod cryf wedi nodweddu Cristnogion Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae angen i ni weddio y bydd gwir undod yr efengyl a chariad yn datblygu rhyngom. Mae Keith Getty yn mynegi hyn yn hyfryd yn un o'i ganeuon:

*Dan gysgod croes yr Iesu  
Rwy'n un â'i deulu Ef;  
Pob un fu'n ceisio'r hunan, nawr  
Sy'n un trwy ras y nef.  
Sut fedrwn waradwyddo'r  
Rhai garodd Iesu gwiw?  
Dan gysgod croes yr Iesu  
Gwel y plant a alwodd Duw.*

© 2005 Thankyou Music

*"Fel Cristnogion ac eglwysi mae mor hawdd i ni fynd yn fewnbylg ac i wahanu ein hunain oddi wrth eraill. Wrth i ni ofalu am ein 'patch' ein hunain mae'n hawdd anghofio fod gwaith Duw yn llawer mwy na ni. Mae gweddio dros ein gilydd yn ffordd hyfryd o ddangos ein hundod. Mae'n rhyfeddol sylweddoli ein bod, drwy weddi, yn cymryd rhan wirioneddol ym mywyd a lles eglwysi eraill."*

Emyr James

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd



*"Ond nid dros y rhain yn unig yr wyf yn gweddio, ond hefyd dros y rhai fydd yn credu ynof fi trwy eu gair hwy. Rwy'n gweddio ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd fod ynom ni, er mwyn i'r byd gredu mai tydi a'm hanfonodd i."*

Ion 17:20-21

## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw am yr holl waith mae wedi ei wneud yn achub pobl ac am undod a welir rhwng Cristnogion Cymru heddiw.

### YMATEB AC YSTYRIED

Ydych chi'n dangos undod gyda Christnogion ac eglwysi'r efengyl eraill sydd yn eich ardal?

### GOFYN

Gofynnwch i Dduw am ddoethineb ac eglurder ar faterion yr efengyl ac am ras wrth i ni drafod ac anghytuno ar faterion eilradd. Gofynnwch i Dduw uno Cristnogion Cymru fel y gall y rhai di-gred weld pŵer yr efengyl ar waith.

### ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae MEC wedi gweld mwy o gydweithredu ac undod rhwng Cristnogion yn y blynyddoedd diwethaf. Gall hyn gael ei weld wrth i dros 70 eglwys o wahanol gefndiroedd ac enwadau fynychu ein dyddiau hyfforddi ym mis Ionawr.

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol gan anffyddiwr yn yr ymgyrch ddiweddar ym Mhrifysgol Bangor: 'Pam fod gymaint o fathau o Gristnogaeth a pam nad ydych yn medru cytuno?'